HERIAU I GRED GREFYDDOL

# PROBLEM DRYGIONI A DIODDEFAINT

## TROSOLWG CYFLYM

- Mae problem drygioni a dioddefaint yn cael ei hystyried yn un o'r dadleuon mwyaf pwerus yn erbyn bodolaeth Duw.
- Os yw Duw yn hollgariadus ac yn hollbwerus, pam y mae drygioni a dioddefaint yn bodoli?
- Mae rhai yn credu bod Duw yn caniatáu i ddrygioni a dioddefaint ddigwydd er mwyn profi twf y ddynoliaeth.
- Mae eraill yn dweud eu bod yn digwydd am fod y ddynoliaeth yn anufudd i Dduw.
- Mae rhai yn credu bod Duw wedi rhoi ewyllys rhydd i'r ddynoliaeth, fel y gall pobl ddewis rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir.

# BETH YW'R BROBLEM?

*'Naill ai nid yw Duw'n gallu dileu drygioni, neu nid yw'n dymuno gwneud hynny: os nad yw'n gallu gwneud hynny, nid yw'n hollbwerus; os nad yw'n dymuno gwneud hynny, nid yw'n holldaionus'* *Sant Awstin*

Mae dau fath o ddrygioni – **drygioni naturiol** sy'n deillio o'r byd naturiol, er enghraifft, afiechydon, daeargrynfeydd a newyn, a **drygioni moesol**, sy'n deillio o weithredoedd pobl, megis llofruddiaeth, rhyfel a niwed difrifol. Mae problem drygioni yn herio'r rhai sy'n credu mewn duw hollgariadus, hollbwerus.

**Y DILEMA YW:**

- Os yw Duw'n **hollalluog** (hollbwerus), yna gall wneud unrhyw beth. Mae hyn yn golygu y gallai greu byd sy'n rhydd o ddrygioni a dioddefaint a gallai roi diwedd ar bob drygioni a dioddefaint.

- Os yw Duw yn **hollwybodus** ac yn gwybod popeth yn y bydysawd, yna mae'n rhaid ei fod yn gwybod sut i roi diwedd ar ddrygioni a dioddefaint.

- Os yw Duw yn **hollhaelionus** (hollgariadus), yna byddai'n dymuno rhoi diwedd ar holl ddrygioni a dioddefaint y byd. Ni fuasai Duw hollgariadus yn dymuno i'w greadigaeth ddioddef heb reswm.

- Serch hynny, mae drygioni a dioddefaint yn bodoli, felly naill ai nid yw Duw yn hollalluog neu'n hollhaelionus neu nid yw'n bodoli.


**I'W DRAFOD:**

**A yw'r daliadau hyn yn hollol gywir, neu a allwch chi feddwl am bosibiliadau eraill?**

# PROBLEM RESYMEGOL DRYGIONI A PHROBLEM DIODDEFAINT


## PROBLEM RESYMEGOL DRYGIONI

Mae'r tri safbwynt hwn yn arwain at **driawd anghyson** – hynny yw, os ydych chi'n derbyn dau, mae'n rhaid i chi wrthod y trydydd. Byddai bod hollalluog da, yn dileu drygioni'n gyfan gwbl. Felly, mae'r gosodiad fod bod hollalluog da yn bodoli, a bod drygioni yn bodoli, yn anghydnaws â'i gilydd.




## PROBLEM DIODDEFAINT

Mae'r tri safbwynt hwn yn canolbwyntio ar y profiad o ddrygioni. Mae'n codi gwahanol gwestiynau oherwydd y profiad o ddioddef. Lle mae'r ddadl resymegol yn ceisio dangos bod bodolaeth Duw yn anghyson â bodolaeth drygioni, ac felly yn arwain at anffyddiaeth, mae'r ddadl bersonol sy'n ymwneud â'r profiad o ddioddef, yn canolbwyntio ar y broblem foesol. Gan gymryd bod Duw yn bodoli, a ellir ymddiried mewn Duw o'r fath?




**I'W DRAFOD:**

**Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ddadl?**

# DATBLYGIADAU MODERN SY'N YMWNEUD Â NATUR Y BROBLEM

**J L MACKIE – DRYGIONI A HOLLALLUOGRWYDD**

Canolbwyntiodd Mackie ar broblem resymegol drygioni. Mae'r broblem resymegol yn codi oherwydd bod theistiaid yn dadlau nad oes terfynau i'r hyn y gall bod hollalluog ei wneud. Fodd bynnag, mae Mackie yn honni mai'r unig ateb i'r broblem resymegol, yw gwadu hyn, a bod pob 'ateb' neu 'theodiciaeth' honedig mewn gwirionedd, yn cyfyngu ar rym Duw, ond yn gamarweiniol, yn cadw'r term 'hollalluogrwydd'.

Mae'n dadlau, yn y gwahanol theodiciaethau:

- fod Duw wedi'i gyfyngu gan angenrheidiau rhesymegol. Felly nid yw'n hollalluog, gan na all wneud yr hyn sy'n rhesymegol amhosibl.
- fod Duw yn ddarostyngedig i ddeddfau achosol a grëwyd ganddo. Felly nid yw'n hollalluog, gan fod rhaid iddo gyflwyno drygioni fel modd o gyrraedd daioni.
- fod Duw yn gwneud pethau na all eu rheoli. Felly nid yw'n hollalluog, gan ei fod wedi creu ewyllysiau dynol na all eu rheoli.

Felly, mae Mackie yn dadlau nad yw'r theodiciaethau yn cynnig ateb i broblem drygioni, gan eu bod wedi newid y rhagosodiad (h.y. bod Duw yn hollalluog).

---

**ROWE – DWYSEDD DIODDEFAINT POBL AC ANIFEILIAID**

Dadleuodd William Rowe yn ei waith: '*The problem of evil and some varieties of atheism*' (1979), er ei bod yn ymddangos yn rhesymol i Dduw ganiatáu rhywfaint o ddioddefaint cyfyngedig er mwyn galluogi bodau dynol i dyfu a datblygu, ni allai dderbyn bod Duw yn caniatáu'r hyn a alwai yn ddioddefaint 'dwys'. Roedd dioddefaint anifeiliaid hefyd yn ymddangos yn ddibwrpas. Defnyddiodd Rowe garw ifanc wedi'i ddal mewn tân yn y goedwig fel enghraifft o ddioddefaint dibwrpas anifail. Mae'n dadlau:

- y byddai bod hollalluog a hollwybodus yn gwybod pan fo dioddefaint dwys ar fin digwydd.
- y gallai bod o'r fath atal y dioddefaint rhag digwydd.
- y byddai bod hollgariadus yn debygol o atal pob drygioni a dioddefaint a oedd yn ddibwrpas ac y gellid ei osgoi.
- bod drygioni a dioddefaint o'r fath yn digwydd.
- felly, mae'n debygol nad yw Duw yn bodoli.

### GREGORY S PAUL – MARWOLAETHAU CYNAMSEROL

Dadleua Gregory S Paul fod marwolaethau cynifer o blant diniwed yn herio bodolaeth Duw. Mae'n amcangyfrif bod dros 50 biliwn o blant wedi marw'n naturiol a bod tua 300 biliwn o fodau dynol wedi marw'n naturiol ond cyn iddynt gael eu geni. Mae'n dadlau:

- bod miliynau o blant diniwed yn dioddef ac yn marw bob blwyddyn, o achosion naturiol a drygionus.
- bod y plant hyn yn rhy ifanc i allu gwneud dewisiadau ynglŷn â Duw - nid oes ganddynt ewyllys rhydd.
- na fyddai bod hollgariadus, hollbwerus yn caniatáu dioddefaint o'r fath.
- felly, nid yw Duw yn bodoli.

---

## YMATEBION CREFYDDOL I'R BROBLEM

Mae daioni Duw yn gysyniad gwahanol iawn i ddaioni dynol, ac mae nifer o gredinwyr crefyddol yn dweud bod Duw yn caniatáu i ddrygioni fodoli, fel rhan o'i gynllun mwy o gariad. Arweiniodd agwedd o'r fath at ddatblygu **theodiciaethau** i gyfiawnhau bodolaeth Duw cariadus yn wyneb drygioni.

### THEODICIAETH AWSTIN

- Dadleuodd Awstin (354-430 CC) fod y Beibl yn dangos bod Duw yn hollddaionus a'i fod, yn ôl Genesis 1, wedi creu byd perffaith dda a rhydd rhag nam, drygioni a dioddefaint allan o ddim byd (ex nihilo): '*Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn*'. (Genesis 1:31).
- Nid yw drygioni ei hun yn beth ffisegol ac felly nid Duw sydd wedi ei greu. Yr hyn yw drygioni mewn gwirionedd, yw rhywbeth da yn troi'n ddrwg (drygioni fel amddifadrwydd).
- Dywedodd Awstin nad oedd drygioni wedi dod oddi wrth Dduw, ond o fodau a oedd ag ewyllys rhydd - angylion a bodau dynol a drodd eu cefnau ar Dduw.
- Felly, mae'r cyflwr o berffeithrwydd wedi ei ddifetha gan bechod dynol.
- Roedd drygioni naturiol yn digwydd o ganlyniad i golli trefn mewn natur.
- Roedd drygioni moesol yn deillio o'r wybodaeth am ddaioni a drygioni y mae pobl wedi cael profiad ohono, am iddynt fod yn anufudd.

Mae Duw yn iawn i beidio â rhoi terfyn ar ddioddefaint, gan fod y gosb yn gwneud iawn am bechod dynol, ac am fod Duw yn Dduw cyfiawn.

Fodd bynnag, mae Awstin yn nodi bod Duw, yn ei gariad a'i ras anfeidrol, wedi anfon ei Fab, Iesu Grist, i farw, fel y gellid achub y rhai a oedd yn credu ynddo ac yn ei dderbyn. Mae pwyslais y theodiciaeth ar yr enaid-benderfynol (*soul-deciding*). Mae ein hymateb i ddrygioni a chynllun iachawdwriaeth Duw, yn pennu'r hyn sy'n digwydd i ni pan fyddwn farw.

## BEIRNIADAETH

- Naill ai nid oedd y byd yn berffaith i ddechrau, neu mae Duw wedi achosi iddo fynd yn anghywir. Os felly, Duw, nid y ddynoliaeth, sydd ar fai.

- Mae safbwynt Awstin fod y byd wedi'i greu'n berffaith ac wedi'i ddifrodi gan fodau dynol yn mynd yn groes i ddamcaniaeth esblygiad, sy'n mynnu bod y bydysawd wedi dechrau mewn anhrefn a'i fod wedi bod yn datblygu'n barhaus.

- Os yw Duw wedi creu bodau dynol perffaith sy'n pechu, yna rhaid bod nam arnynt pan gawsant eu creu.

- Mae dioddefaint yn hanfodol er mwyn goroesi – rhaid i bethau farw er mwyn i eraill allu bwyta a byw – rhaid i Dduw ysgwyddo'r cyfrifoldeb am hyn.

- Mae bodolaeth Uffern fel man lle mae cosbedigaeth yn dragwyddol, yn groes i'r cysyniad o Dduw hollgariadus.

- Os oedd Uffern yn rhan o gynllun y bydysawd, a oedd Duw felly, yn gwybod y byddai'r byd yn mynd yn anghywir beth bynnag, ac wedi caniatáu i hyn ddigwydd er hynny?

## (I) THEODICIAETH IRENAEUS

Ysgrifennodd Irenaeus (130-202 CC) am y syniad fod bodau dynol yn datblygu tuag at berffeithrwydd:

- Roedd Irenaeus yn gwahaniaethu rhwng ‘llun’ a ‘delw’ Duw (Genesis 1:26).
- Roedd gan Adda ffurf Duw, ond nid oedd yn cynnwys Duw.
- Cafodd Adda ac Efa eu gyrru allan o Ardd Eden oherwydd eu bod yn anaeddfed ac am fod angen iddynt ddatblygu i fod yn ddelw o Dduw (i gynnwys Duw).
- Roedd yn rhaid i fodau dynol ddatblygu daioni a pherffeithrwydd eu hunain, drwy gydweithrediad parod â Duw.
- Roedd yn rhaid i Dduw roi ewyllys rydd iddynt ac mae rhyddid o’r fath yn galw am y posibilrwydd o allu dewis drygioni, yn hytrach na daioni.
- Mae ein byd sy’n gymysgedd o ddaioni a drygioni, yn amgylchedd a bennwyd gan Dduw i fodau dynol allu datblygu tuag at berffeithrwydd.

Yn fwy diweddar, cymerodd John Hicks y syniadau hyn a’u datblygu nhw yn theodiciaeth gyflawn:

- Pe bai Duw wedi creu dynoliaeth yn berffaith, byddai dynion wedi meddu ar ddaioni robotiaid, a fyddai’n caru Duw yn awtomatig, heb ystyried na chwestiynu’r peth.
- Byddai cariad o’r fath yn ddiwerth.
- Roedd Duw am i fodau dynol fod yn wirioneddol gariadus.
- Er mwyn cyflawni hyn, roedd yn rhaid i Dduw greu bodau dynol ar bellter epistemig oddi wrtho – pellter mewn dimensiwn neu wybodaeth, fel nad yw Duw mor agos nes ei fod yn llethu bodau dynol, a’u bod felly heb unrhyw ddewis ond credu ac ufuddhau. Trwy gadw pellter, mae Duw yn caniatáu i fodau dynol ddewis yn rhydd.
- Pe na bai drygioni a dioddefaint, ni fyddai bodau dynol yn rhydd i ddewis, gan mai daioni’n unig a fyddai’n bodoli.
- Heb fodolaeth drygioni a dioddefaint, ni fyddai bodau dynol yn gallu datblygu nodweddion cadarnhaol cariad, parch, dewrder ac yn y blaen, a byddent yn colli’r cyfle i ddatblygu ar ddelw Duw.
- Mae Hick yn awgrymu fod y byd yn fan enaid-ffurfiol, hynny yw, yn fan lle mae’n rhaid i fodau dynol ymateb i heriau, er mwyn ennill perffeithrwydd.
- Gellir cyfiawnhau’r broses hon oherwydd y canlyniad terfynol. Os na chwblheir y broses yn y bywyd hwn, dadleuodd Hick ein bod yn mynd i fywyd arall mewn man arall hyd nes y cwblheir y broses. Mae pwyslais y theodiciaeth ar yr enaid-ffurfiol.

## BEIRNIADAETH

### CEIR SAWL BEIRNIADAETH AR THEODICIAETH IRENAEUS:

- Awgrymodd Hick fod pawb yn mynd i'r nefoedd. Nid yw hyn i'w weld yn deg nac yn gyfiawn; mae'n gwrthddweud testunau crefyddol sawl ffydd ac yn awgrymu nad oes rheswm dros fod yn dda yn y pen draw.
- Nid yw heriau'r byd bob amser yn arwain at ddatblygiad dynol dilys, ac yn aml nid ydynt i'w gweld yn creu dim ond gofid a dioddefaint mawr.
- Dadleuodd Dewi Z. Phillips na ellid mynegi cariad byth drwy ganiatáu i ddioddefaint ddigwydd: *Beth a ddywedwn am blentyn yn marw o ganser? Pan fo hyn yn digwydd i unrhyw berson, mae hynny'n rhywbeth digon drwg. Ond mae gwneud hynny at ddiben a gynlluniwyd o dragwyddoldeb – dyna yw'r drygioni gwaethaf. Os mai cyfryngwr o'r math hwn yw Duw, ni all gyfiawnhau Ei weithredoedd ac mae Ei natur ddrygionus yn dod i'r golwg.*
- Fel theodiciaeth Gristnogol, mae marwolaeth Iesu a maddeuant yn ymddangos yn amherthnasol.
- Ni cheir tystiolaeth o fywydau eraill ar ôl marwolaeth.
- Sut y gellir sicrhau'r nod? Oni fyddai'n bosibl i bobl ddewis drygioni hyd dragwyddoldeb a pheidio â chyrraedd perffeithrwydd byth?

> Y prif wahaniaeth rhwng Awstin ac Irenaeus, yw bod y cyntaf yn credu bod dynoliaeth wedi'i chreu'n berffaith ac wedi troi yn erbyn Duw, gan achosi drygioni a dioddefaint i ddod i mewn i'r byd. Roedd Irenaeus, ar y llaw arall, yn credu bod y ddynoliaeth wedi'i chreu yn ddiffygiol yn fwriadol, fel y gallai dynoliaeth ddatblygu, drwy ddioddefaint, i fod yn ddaionus.

## Y SYNIAD O EWYLLYS RHYDD

MAE’R SYNIAD O EWYLLYS RHYDD YN RHAN O’R DDWY BRIF THEODICIAETH:

- Yn theodiciaeth Awstin, mae drygioni yn y byd am fod y ddynoliaeth yn camddefnyddio’r rhodd o ewyllys rhydd. Mae Duw wedi creu byd lle gallai bodau dynol benderfynu’n rhydd i garu a bod yn ufudd i Dduw
- Yn theodiciaeth Hick, mae pobl yn rhydd i ddod at Dduw gan fod Duw yn fwriadol wedi creu byd lle nad yw bodolaeth Duw yn rhywbeth sy’n hollol amlwg. Mae daioni dynol yn digwydd drwy wneud dewisiadau moesol rhydd a chyfrifol, mewn sefyllfaoedd anodd lle mae temtasiwn.
- Ni all Duw ymyrryd gan y byddai gwneud hynny yn peryglu rhyddid dynol ac yn cael gwared ar yr angen i fodau dynol fod yn gyfrifol, gan atal datblygiad dynol; ‘*Po leiaf y mae’n caniatáu i ddynion greu arswydi ar raddfa fawr, y lleiaf o ryddid a chyfrifoldeb y mae’n eu rhoi iddynt*’ (Richard Swinburne).

### BEIRNIADAETH

- Nid yw’r syniad o ewyllys rhydd yn llwyddo i ateb y feirniadaeth na ellir mynegi cariad dwyfol drwy ddioddefaint.
- Dywedodd J.L. Mackie: “Nid oedd Duw, felly, yn wynebu dewis rhwng creu awtomata diniwed a chreu bodau a fyddai, drwy weithredu’n rhydd, weithiau’n mynd yn anghywir: roedd ganddo’r cyfle, sy’n amlwg yn well, i wneud bodau a fyddai’n gweithredu’n rhydd ond bob amser yn dewis yn gywir.’
- Mae ewyllys rhydd yn golygu nad yw Duw yn hollalluog gan na all Duw reoli’r dewisiadau y mae bodau dynol yn eu gwneud.
- Gallai Duw fod wedi dewis creu byd heb greaduriaid rhydd.
- Nid oes modd cyfiawnhau drygioni naturiol.

# CASGLIAD

**MAE'R BROBLEM YN HERIO GRYM DUW**

A yw'n gallu rhwystro drygioni?

A yw'n gallu ymyrryd a gwneud gwyrthiau?

Nid oes atebion hawdd, ac mae Swinburne yn crynhoi'r broblem fel hyn:

> *'Bydd Duw haelionus yn ceisio rhoi cyfrifoldeb mawr i ni amdanom ni ein hunain, am ein gilydd a'r byd, ac felly'n rhoi rhan i ni yn ei weithgaredd creadigol ei hun o bennu pa fath o fyd yw'n mynd i fod. A bydd yn ceisio gwneud ein bywydau'n werthfawr, o ddefnydd mawr i ni ein hunain ac i'n gilydd. Y broblem yw na all Duw roi'r daioni hyn i ni'n llawn heb ganiatáu llawer o ddrygioni ar hyd y ffordd.'*

# GEIRIAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| DRYGIONI NATURIOL | digwyddiadau y mae natur yn eu hachosi sy'n creu dioddefaint, lle nad oes gan bobl reolaeth drostynt bron o gwbl, er enghraifft, daeargrynfeydd. |
| DRYGIONI MOESOL | digwyddiadau lle mae pobl yn gyfrifol am weithredoedd sy'n achosi dioddefaint neu niwed, er enghraifft, rhyfel. |
| THEODICIAETH | cyfiawnhad o gyfiawnder Duw o dderbyn bodolaeth drygioni. |
| HOLLALLUOGRWYDD | y nodwedd o fod yn hollbwerus. Nid yw rhai athronwyr yn cynnwys y grym i wneud yr hyn sy'n amhosibl yn rhesymegol. |
| EWYLLYS RYDD | y gallu i wneud dewisiadau nad ydynt wedi'u penderfynu gan achosion blaenorol neu gan ymyriad dwyfol. |
| HOLLWYBODAETH | y nodwedd o fod yn hollwybodus ynglŷn â phopeth gwir a phosibl. |
| EX NIHILO | ymadrodd Lladin sy'n golygu 'o ddim byd'. Mae'n cyfeirio at y gred nad yw Duw wedi defnyddio unrhyw ddeunydd a oedd yn bodoli eisoes wrth greu. |
| ENAID-BENDERFYNOL | theodiciaeth Awstin lle mae ymateb pobl i ddrygioni a chynllun achubiaeth Duw yn pennu eu tynged. |
| ENAID-FFURFIOL | theodiciaeth Irenaeaidd lle mae presenoldeb drygioni yn fwriadol ac yn helpu pobl i dyfu a datblygu. |
| PELLTER EPISTEMIG | pellter gwybodaeth Duw. Mae Duw wedi'i guddio ac felly'n caniatáu i fodau dynol ddewis yn rhydd. |
| DAIONI AIL DREFN | daioni moesol sy'n deillio o ymateb i ddrygioni. |
| THEISTIAETH GLASUROL | y gred mewn duwdod personol, creawdwr popeth sy'n bodoli, sydd ar wahân i'r greadigaeth honno ac sy'n gynhaliwr ac yn geidwad y bydysawd. |
| AMDDIFADRWYDD | absenoldeb neu ddiffyg rhywbeth a ddylai fod yno. Yn achos drygioni fel amddifadrwydd, gwelir drygioni fel absenoldeb daioni. |
| CYFIAWNHAD ESCHATOLEGOL | mae drygioni a dioddefaint yn cael eu cyfiawnhau oherwydd y canlyniad terfynol. |

# PROBLEM DRYGIONI
# CWESTIYNAU

| | |
|---|---|
| 1 | Eglurwch y gwahaniaeth rhwng:<br><br>I. drygioni moesol a drygioni naturiol<br>II. hollalluog a hollhaelionus<br>III. daioni trefn gyntaf a daioni ail drefn. |
| 2 | Beth yw'r gwahaniaeth rhwng problem resymegol drygioni a phroblem dystiolaethol drygioni? |
| 3 | Pam y cyfeirir at theodiciaeth Awstin fel "enaid-benderfynol" (soul-deciding)?<br>Omnipotence –the characteristic of being all-powerful.<br>Some philosophers exclude the power to do the logically impossible. |
| 4 | Pam y cyfeirir at theodiciaeth Irenaeaidd fel "enaid-ffurfiol" (soul-making)? |
| 5 | Eglurwch y feirniadaeth y mae Mackie yn ei chymhwyso i bob un o'r theodiciaethau. |
| 6 | Pa ymateb y gellid ei roi i'r beirniadaethau canlynol ar theodiciaeth Awstin:<br><br>I. Mae'r Cwymp a ddisgrifiwyd yn Genesis yn gwrth-ddweud datblygiad esblygiadol.<br>II. Nid yw bodolaeth uffern yn gyson â Duw cariadus.<br>III. Os creodd Duw fodau dynol perffaith a bechodd, yna mae'n rhaid eu bod wedi'u creu'n ddiffygiol. |
| 7 | Pa ymateb y gellid ei roi i'r beirniadaethau canlynol o theodiciaeth Irenaeaidd:<br><br>I. Mae marwolaeth Iesu'n ymddangos yn amherthnasol.<br>II. Mae drygioni'n tueddu i ddinistrio pobl yn hytrach na'u gwneud yn berffaith.<br>III. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod pobl yn cael cyfres o fywydau, tan eu bod yn cyrraedd perffeithrwydd. |

# PROBLEM DRYGIONI
# ATEBION

| | |
|---|---|
| 1 | I. Drygioni moesol yw digwyddiadau lle mae gweithredoedd cyfrifol yn achosi dioddefaint, a drygioni naturiol yw digwyddiadau mewn sy'n achosi dioddefaint, ond nid yw pobl yn gallu eu rheoli bron o gwbl.<br>II. Mae hollalluog yn golygu hollbwerus, ac mae hollhaelionus yn golygu Hollddaionus.<br>III. Mae daioni trefn gyntaf yn codi'n uniongyrchol o weithred, ac mae daioni ail drefn yn fathau o ddaioni sy'n codi o ymateb i ddrygioni. |
| 2 | Mae problem resymegol drygioni yn dangos anghysondeb rhesymegol rhwng bodolaeth Duw a bodolaeth drygioni. Mae problem dioddefaint yn ymwneud â'r profiad o ddioddef ac a ddylid ymddiried yn Nuw o ystyried bod dioddefaint yn digwydd. |
| 3 | Fe'i gelwir yn enaid-benderfynol am mai'r ymateb i ddrygioni yn y pen draw sy'n penderfynu tynged pobl. |
| 4 | Fe'i gelwir yn enaid-ffurfiol am fod presenoldeb drygioni yn helpu pobl i dyfu a datblygu. |
| 5 | Mae Mackie yn dadlau bod pob theodiciaeth mewn rhyw fodd neu'i gilydd yn cyfyngu ar rym Duw. Felly, nid oes unrhyw theodiciaeth yn derbyn Duw sy'n hollbwerus mewn gwirionedd. |
| 6 | I. Nid rhywbeth i'w gymryd yn llythrennol yw'r Cwymp yn y Beibl; yn hytrach, mae'n cynrychioli gwrthryfel pob unigolyn yn erbyn Duw. NEU, mae'r Cwymp yn gywir ac esblygiad sy'n anghywir.<br>II. Mae'n rhaid i bobl fod yn rhydd i ddewis ac mae canlyniadau i'w Dewisiadau, NEU, ceir difodiad yn hytrach nag uffern, NEU, bygythiad gwag yw uffern ac mewn gwirionedd, mae pawb yn cael eu hachub.<br>III. Nid yw'n bosibl creu bodau rhydd os ydyn nhw'n cael eu creu i wneud y dewis cywir bob tro. |
| 7 | I. Mae marwolaeth Iesu yn enghraifft sy'n ysbrydoli.<br>II. Ond yn y pen draw bydd pawb yn cyflawni'r nod o berffeithrwydd.<br>III. Mae yna dystiolaeth, er enghraifft bywydau sy'n cael eu cofio, ysbrydegaeth. |

# SGIL GWERTHUSO

NID YW THEODICIAETHAU IRENAEAIDD ERIOED WEDI BOD YN LLWYDDIANNUS WRTH YMATEB I BROBLEM DRYGIONI.

## GWERTHUSWCH Y SAFBWYNT HWN

Sail theodiciaeth Irenaeus yw bod bodau dynol yn datblygu tuag at berffeithrwydd. Y pwyslais yw deall y byd fel “dyffryn enaid-ffurfiol”. Yn fwriadol, fe greodd Duw fyd lle nad yw’n uniongyrchol nac yn aruthrol o amlwg fod Duw’n bodoli. Mae hyn yn caniatáu rhyddid i fodau dynol ddod at Dduw a gwneud dewisiadau moesol rhydd a chyfrifol. Gellir cyfiawnhau drygioni a dioddefaint, gan mai dyma’r modd y bydd pob bod dynol yn llwyddo yn y pen draw i ddod yn berffaith yn foesol. Yn sicr, mae rhai mathau o ddaioni moesol yn ymateb i ddrygioni ac felly nid oes modd iddynt fodoli hebddynt, er enghraifft, trugaredd.

Yn yr 21ain ganrif, mae gan yr agwedd hon rywfaint o apêl o ran problem drygioni. Mae’n gyson â’r safbwynt gwyddonol ar esblygiad ac felly’n llwyddo’n well na theodiciaeth Awstin. Fodd bynnag, os ystyrir bod yr hyn a gofnodir yn y Beibl yn disgrifio digwyddiadau hanesyddol, yna ni fyddai theodiciaeth Irenaeaidd yn argyhoeddi. Yn wir, fel theodiciaeth Gristnogol, byddai’n ymddangos yn ddiffygiol, gan fod yr iawn a wnaed gan Grist a’i iachawdwriaeth waredol drwy farw ar y Groes yn ymddangos yn amherthnasol. Mae’n ymddangos bod dim lle i faddau pechodau. Hefyd, oni fyddai Duw hollbwerus, haelionus yn gallu dod o hyd i fecanwaith mwy trugarog i alluogi ei greadigaeth i dyfu a datblygu tuag at Dduw? Yn wir, mae drygioni yn aml yn difetha a dinistrio pobl, yn hytrach na’u gwneud yn berffaith.

*(parhau)*

Fodd bynnag, efallai nad yw beirniadaethau o'r fath yn ddigonol i wrthod y theodiciaeth. Mae ganddi gryfderau a allai wrthbwyso'i gwendidau ymddangosiadol. Er enghraifft, mae'n ymddangos yn rhesymol fod rhai mathau o ddaioni yn galw am fodolaeth drygioni (e.e. trugaredd) ac mae'r nod yn cyfiawnhau'r dull o'i gyrraedd, gan fod pawb yn y pen draw yn profi'r llawenydd eithaf ac mae'r llawenydd hwnnw'n parhau'n dragwyddol. Mae'n amlwg fod pwrpas i'r profiad o ddrygioni. Mae'r theodiciaeth hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb dynol dilys ac felly'n parchu ewyllys rydd ddynol dilys.

Hefyd, mae'n wir ei bod yn dileu problem uffern, gan fod pawb yn cyflawni perffeithrwydd, h.y. mae'r canlyniad yn y pen draw yn cael ei sicrhau, gan mai dyna'r cyfiawnhad dros fodolaeth drygioni - mae'n cyflawni ei nod. Ond os yw perffeithrwydd fel canlyniad yn y pen draw yn cael ei sicrhau, yna beth yw pwynt mynd drwy'r boen a'r dioddefaint? Yn ogystal, oni allem ddefnyddio ein hewyllys rhydd i wrthryfela'n dragwyddol a pheidio â chyrraedd perffeithrwydd byth?

Mae'r dadleuon yn dangos y gall gynnig ateb i broblem drygioni, ond bydd rhai anawsterau difrifol yn parhau. Fodd bynnag, gellid dadlau bod y theodiciaethau eraill yn codi problemau mwy fyth ac felly efallai y bydd llawer yn teimlo nad yw theodiciaeth Irenaeaidd yn gwbl aflwyddiannus. Wedi'r cyfan, mae'n darparu ateb, ond yr unigolyn sydd i bwyso a mesur, a phenderfynu i ba raddau y mae'n argyhoeddi. Yn benodol, efallai mai'r broblem sy'n codi o ddiffyg angen am farwolaeth Iesu, fydd y ffactor tyngedfennol i lawer, wrth wrthod y theodiciaeth.

# CWESTIYNAU ADOLYGU

## CWESTIWN 1

Trafodwch, mewn grŵp, i ba raddau rydych chi'n meddwl y mae'r ateb hwn wedi mynd i'r afael yn llawn â'r cwestiwn a osodwyd.

## CWESTIWN 2

Nodwch agweddau effeithiol yr ateb o ran ei arddull.

## CWESTIWN 3

Sut mae'r ateb hwn yn wahanol i arddull atebion sy'n gwerthuso, ac sy'n rhestru dadleuon o blaid, ac yna'n rhestru dadleuon yn erbyn?

## CWESTIWN 4

Trafodwch unrhyw ffordd y gellid gwella'r ateb?

## SYLW 4

Edrychwch yn ôl ar y sylwadau ar gwestiwn 1, a meddyliwch am ffyrdd y gallech gynnwys y rheiny yn eich ateb.

## CWESTIWN 5

Tanlinellwch unrhyw eiriau yn yr ateb sy'n dangos ei fod yn gwerthuso.

## CWESTIWN 6

Nawr ceisiwch ysgrifennu eich ateb eich hun i'r cwestiwn a osodwyd.